**12.1** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **19C924B** Application Number


Ymgeisydd Applicant

**Holyhead Regen. Scheme**
**Anglesey County Council**
**Llangefni**
**LL77 7TW**

Dileu amodau (02), (03) a (04) o gais cynllunio 19C924A er mwyn cysylltu i'r sustem carthffosiaeth yn

Deletion of conditions (02), (03), (04) from planning consent 19C924A so as to connect to the public sewerage system at

7-9 & 11-13, Market Street, Holyhead



**Pwyllgor Cynllunio: 06/04/2011**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (SCR)**

**Argymhelliad:**

Ganiatau

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Cynllun Adfywio Caergybi sydd yn rhan o'r Cyngor Sir sydd wedi cyflwyno'r cais.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Cais yw hwn i ddileu amodau (02), (03) ac (04) o ganiatâd cynllunio 19C924A er mwyn gallu cysylltu i'r brif garthffosiaeth yn hytrach na darparu traeniau cerrig ar y safle.  Roedd cais 19C924A yn un ar gyfer gosod wynebau newydd ar 2 siop ynghyd â newid defnydd y llawr cyntaf a'r ail yn y 2 fflat a gwneud gwaith altro ac ymestyn ac adeiladu teras ar do'r llawr cyntaf yn 7-9 a 11-13 Stryd y Farchnad, Caergybi.

Mae'r safle yn brif ffryntiad siopau dynodedig yng Nghynllun Lleol Ynys Môn ac y mae o fewn Ardal Gadwraeth Ddynodedig Caergybi.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Y prif fater i'w ystyried yw – a ellir draenio'r safle'n ddigonol os caiff yr amodau eu dileu.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

Polisi 1 – Polisi Cyffredinol

**Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn**

Polisi GP1 – Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu
Polisi SG5 - Rhediad Dwr Wyneb

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Yr Aelod Lleol – Dim ymateb hyd yn hyn

Cyngor Tref – Dim gwrthwynebiad

Draenio – Dylid cysylltu a Dwr Cymru

Dwr Cymru – Cefnogi'r cais

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd mewn tri ffordd i'r cais hwn, sef trwy roi rhybudd safle ger y safle a rhybuddion unigol i eiddo cyfagos.  Y dyddiad ar gyfer derbyn sylwadau yw 16 Chwefror, 2001 ac ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn nid oedd unrhyw sylwadau wedi'u derbyn.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

19C924 – Cais i newid defnydd y siop A1 i Ganolfan gwaith A2 yn 7 – 9 a 11 – 13 Stryd y Farchnad, Caergybi – Caniatau 14/12/05

19C924A - Gosod 2 wyneb siop newydd ynghyd a newid defnydd y llawr cyntaf a'r ail i 2 fflat ac addasu ac ehangu a chreu teras to llawr cyntaf yn 7 – 9 a 11 – 13 Stryd y Farchnad, Caergybi – Caniatau 16/09/10

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Draenio - Mae Dwr Cymru Welsh Water wedi cytuno i ddileu’r amodau a grybwyllwyd, ac i bob pwrpas fe all y datblygwyr yn awr gysylltu’r dwr wyneb i’r brif garthffosiaeth.

**7. Casgliad**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion croes gan ymgynghorwyr statudol yn ystod y cyfnod ymgynghori; ac felly fe ddylid caniatau’r cais.

**8. Argymhelliad**

Ganiatau

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

Dim

**10. Ymatebion Eraill Di-Faterol a Godwyd**

Dim

**12.2** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **28C232E/AD** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Llanfaelog Community Council**
**c/o Richard Dew**
**Glan Gors**
**Llanfaelog**
**Ynys Môn**
**LL63 5SR**

Gosod arwydd heb ei oleuo yn — Siting of a non-illuminated sign at

Cae Peldroed Bryn Du Football Field, Bryn Du



**Pwyllgor Cynllunio: 06/04/2011**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio(AMG)**

**Argymhelliad:**

Caniatau

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae Aelod Lleol yn gweithredu fel asiant i'r ymgeisydd.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Cynnig yw hwn i gael codi arwydd heb ei oleuo yn y fynedfa i Gae Pêl-droed Bryn Du.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Y mater allweddol yma yw – a yw gosod yr arwydd yn y lleoliad hwn yn dderbyniol o safbwynt mwynderau a diogelwch y briffordd.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

1 – Polisi Cyffredinol
22 – Hysbysebion

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

D4 – Lleoliad, Safle a Dyluniad

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

SG10 – Hysbysebion

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Yr Aelod Lleol – Dim ymateb wedi ei dderbyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Cyngor Cymuned – Aelod Lleol – dim ymateb wedi ei dderbyn ar adeg ysgrifennu'r adroddiad.

**Ymateb i'r Cyhoeddusrwydd**

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cynnig mewn dwy ffordd; rhoi rhybudd safle ger y safle ynghyd â dosbarthu llythyrau personol i berchnogion / deiliaid eiddo cyfagos. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad nid oedd unrhyw sylwadau wedi'u derbyn yn yr adran. Dylid nodi mai'r dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw 1 Ebrill 2011.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

28C232 – Newid defnydd o dir amaethyddol i gae chwarae yn OS 3900, Bryn Du – Caniatáu

03/01/1996.

28C232A – Darparu cyfleuster chwaraeon cymunedol i gynnwys cae pel-droed, ystafelloedd newid, maes pob tywydd, llif oleuadau a pharcio ceir ar OS 3900, ger Maes Cynlas, Bryn Du – Caniatáu 26/11/1996.

28C232B – Cadw portacabin am gyfnod dros dro o dair blynedd ar dir ger Maes Cynlas, Bryn Du – Caniatáu 16/05/2002.

28C232D – Cais ôl-ddyddiol i leoli dau bortacabin i'w defnyddio fel ystafelloedd newid i weithgareddau chwaraeon yng Nghae Pel-Droed Bryn Du, Bryn Du – Caniatáu 07/09/2010.

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

**Dyluniad**

Mae'r arwydd arfaethedig tua 1m x 1.5m o ran maint ac wedi'i leoli tua 1.2m uwchben lefel y ddaear. Bydd yr arwydd arfaethedig wedi ei wneud o fetel gyda chefndir glas ac ysgrifen ddu arno.

Nid ydym yn ystyried y bydd yr arwydd arfaethedig yn cael effaith annerbyniol ar fwynderau'r ardal gan ei fod wedi'i leoli o fewn tir Cae Pêl-droed Bryn Du.

**Priffyrdd**

Nid ydym yn ystyried y bydd yr arwydd arfaethedig yn cael effaith andwyol ar ddiogelwch y briffordd oherwydd bod yr arwydd arfaethedig wedi'i leoli o fewn tir Cae Pêl-droed Bryn Du.

**7. Casgliad**

Ystyrir bod y cynnig yn dderbyniol.

**8. Argymhelliad**

**Caniatáu**

**(01) Rhoddir caniatâd trwy hyn am gyfnod o 5 mlynedd yn dechrau gyda dyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: I gydymffurfio gyda Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 2007.

**(02) Rhaid cadw unrhyw hysbysebion arddangosir, ac unrhyw safle ddefnyddir i arddangos hysbysebion, mewn cyflwr glân a thaclus a hynny er boddhad rhesymol yr awdurdod cynllunio lleol.**

Rheswm: Er mwyn sicrhau y bydd lleoliad a dyluniad yr arwydd yn foddhaol o safbwynt amwynder.

**(03) Rhaid i unrhyw strwythur neu fyrddau hysbysu a godir neu a ddefnyddir yn bennaf i bwrpas arddangos hysbysebion gael eu cadw mewn cyflwr diogel.**

Rheswm: Er mwyn sicrhau y bydd lleoliad a dyluniad yr arwydd yn foddhaol o safbwynt amwynder.

**(04) Pan fydd angen symud hysbyseb ymaith o dan y Rheoliadau hyn, rhaid i'r gwaith o**

**symud yr arwydd gael ei wneud er boddhad rhesymol yr awdurdod cynllunio lleol.**

Rheswm:  Er mwyn sicrhau y bydd lleoliad a dyluniad yr arwydd yn foddhaol o safbwynt amwynder.

**(05)  Ni chaniateir arddangos unrhyw hysbyseb heb ganiatâd perchennog y safle neu unrhyw berson arall gyda diddordeb yn y safle sydd â'r hawl i roi caniatâd.**

Rheswm:  Er mwyn sicrhau y bydd lleoliad a dyluniad yr arwydd yn foddhaol o safbwynt amwynder.

**(06)  Ni chaniateir lleoli nac arddangos hysbyseb fel y bydd yn cuddio, neu'n rhwystro i unrhyw un allu dehongli unrhyw arwydd traffig y ffordd yn hwylus.**

Rheswm:  Er mwyn sicrhau y bydd lleoliad a dyluniad yr arwydd yn foddhaol o safbwynt amwynder ac er mwyn cydymffurfio gyda gofynion yr Awdurdod Priffyrdd er lles diogelwch traffig cerbydau a cherddwyr.

**(07)  Rhaid i'r datblygiad ganiateir yma gael ei wneud yn hollol unol â'r cynllun(iau) gyflwynwyd ar 03.03.2011 o dan gais cynllunio cyfeirnod 28C232E/AD**

I osgoi amheuaeth.

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

Dim.

**10. Ymatebion Eraill Di-Faterol a Godwyd**

Dim.

**12.3** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**


Rhif y Cais: **34C97U** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Mr. Gerallt Llewelyn Jones**
**c/o Mr. Dewi Williams**
**DEWIS**
**Menai House**
**Holyhead Road**
**Llanfairpwll**
**Anglesey**
**LL61 5UJ**

Codi storfa biniau yn Erection of bin store at

Town Hall, Llangefni



**Pwyllgor Cynllunio: 06/04/2011**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (IWJ)**

**Argymhelliad:**

Caniatau

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae hwn yn gais ar dir y cyngor

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Maer safle'r cais tu fewn libart neuadd tref Llangefni sydd o eiddo Cyngor Sir Ynys Mon.

Y bwriad yw codi storfa bin yng nhefn yr eiddo er mwyn

**2. Mater(ion) Allweddol**

Y mater allweddol yma yw – a yw gosodiad a dyluniad y storfa biniau yn dderbyniol.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Mon**

1 – Polisi Cyffredinnol
28 – Llifogydd Mor ac Afonydd
40 – Diogelu adeiladau
41 – Diogelu adeiladau
42 – Dylunio

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

D4 – Lleoliad, Gosodiad a Dylunio
D22 – Adeiladau Rhestredig
D25 – Ardaloedd Cadwraeth
D29 – Dylunio

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

GP1 – Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu
GP2 – Dylunio
EN13 – Diogelu Adeiladau

**TAN 15 – Datblygu a Risg Llifogydd**

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Aelod Lleol – Dim argymell

Dwr Cymru – Dim ymateb adeg ysgrifennu'r adroddiad

Amgylchedd Adeiledig – Dim ymateb adeg ysgrifennu'r adroddiad

Cyngor Cymuned – Dim ymateb adeg ysgrifennu'r adroddiad

Priffyrdd – Dim argymell

Ymgynghorydd Amgylcheddol – Dim argymell

Draenio – Dim argymell

Asiantaeth Amgylchedd Cymru – Sylwadau

Ymateb i cyhoeddusrwydd – Dim wedi ei dderbyn adeg ysgrifennu'r adroddiad

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

Nifer o geisiadau cynllunio cynt ar gyfer Neuadd y Dref ond nid yw run ohonynt yn berthnasol i'r cais penodol hwn.

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Mae angen y storfa bin arfaethedig i gwrdd â'r cynnydd yn y llwyth gwastraff a gynhyrchir o Neuadd y Dref yn dilyn cymeradwyo newid defnydd i fod yn swyddfeydd.

Lleolir y storfa bin i'r de o Neuad y Dref a bydd rhaid ei hadeiladu o ddefnyddiau a fydd yn cydweddu â Neuadd y Dref gyfagos gyda llechi Cymreig ar y to.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi codi pryderon ynghylch llifogydd. Fod bynnag, yn absenoldeb asesiad canlyniad llifogydd, mae'r Asiantaeth yr Amgylchedd yn ystyried bod y risg yn dderbyniol yn amodol ar roi gwybod i'r datblygwr am y risgiau posib a'i gynghori i sefydlu mesurau atal llifogydd fel rhan o'r datblygiad.

Ystyrir bod lleoliad a dyluniad y storfa bin arfaethedig yn dderbyniol ac nid ystyrir y bydd y cynnig yn cael effaith annerbyniol ar gymeriad ac edrychiad yr ardal gadwraeth ddynodedig nac amgylchedd yr Adeilad rhestredig.

**7. Casgliad**

Ystyrir bod lleoliad a dyluniad y storfa bin yn dderbyniol.

**8. Argymhelliad**

**Caniatau**

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

31 – Tirwedd
**Cynllun Fframwaitrh Gwynedd**

D3 – Ardaloedd Gwarchod Tirwedd

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

EN1 – Cymeriad Tirwedd

TAN 12 – Dylunio

TAN 15 – Datblygu a pherygl o lifogydd

Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 4, Chwerfor 2011

Cylchlythyr 61/96: Cynllunio a’r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth.

**10. Ymatebion Eraill Di-Faterol a Godwyd**

Dim

**12.4** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**


Rhif y Cais: **34LPA418H/ECON/CC** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Head of Service (Property)**
**Property Section**
**Anglesey County Council**
**Council Offices**
**Llangefni**
**Ynys Mon**
**LL77 7TW**

Cadw'r swyddfeydd dros dro yn Retention of temporary offices at

Council Offices, Llangefni



**Pwyllgor Cynllunio: 06/04/2011**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio(JBR)**

**Argymhelliad:**

Caniatau.

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Cais gan yr Awdurdod Lleol.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae swyddfeydd dros dro ar safle'r cais ar dir ger adeiladau'r Cyngor yn Llangefni yn cynnwys Gwasanaethau Cynllunio'r Cyngor, yr Adain Rheoli Adeiladu, yr Adain Rheoli Gwastraff a'r Adain Stadau.

Mae'r cais ar gyfer cadw'r swyddfeydd dros dro am gyfnod dros dro pellach o 5 mlynedd.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Y mater allweddol yw a yw'n dderbyniol cadw'r swyddfeydd dros dro am 5 mlynedd arall.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Mon**

1 – Polisi Cyffredinol
2 – Swyddi Newydd
4 – Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

B1 – Cyflogaeth
B2 – Darpary Cyflogaeth
B4 – Diogelu Safleoedd Cyflogaeth

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

GP1 – Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu
EP1 – Safleoedd Cyflogaeth
EP2 – Diogelu Safleoedd Cyflogaeth

**Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 4)**

**TAN 12: Dylunio**

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Aelod Lleol – Dim ymateb adeg ysgrifennu'r adroddiad.

Dwr Cymru - Dim ymateb adeg ysgrifennu’r adroddiad.

Cyngor Cymuned - Dim ymateb adeg ysgrifennu’r adroddiad.

Priffyrdd - Dim ymateb adeg ysgrifennu’r adroddiad.

Asiantaeth yr Amgylchedd - Dim ymateb adeg ysgrifennu’r adroddiad.

Datblygu Economaidd - Dim ymateb adeg ysgrifennu’r adroddiad.

Draenio – Sylwadau

**Ymateb i Gyhoeddusrwydd**

Dim wedi ei dderbyn adeg ysgrifennu’r adroddiad.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

34LPA418D/CC – Cadw’s swyddfeydd dros dro yn Maes Parcio Stad Diwydiannol Penyrorsedd, Llangefni – Dim Gwrthwynebiad – 12.7.96

34LPA418F/CC – Adnewyddu caniatad cynlluion rhif 34LPA418D/CC er mwyn cadw’r swyddfeydd dros dro yn Maes Parcio Stad Diwydiannol Penyrorsedd, Llangefni – Dim Gwrthwynebiad – 7.9.01

34LPA418G/CC – Estyniad i’r caban ar gyfer swyddfeydd dros dro yn Portacabin, Llangefni – Caniatau – 12.3.03

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Rhoddwyd y caniatâd blaenorol ar gyfer y swyddfeydd dros dro ym Medi 2001 am gyfnod dros dro o 5 mlynedd. Daeth y caniatâd dros dro i ben felly ym Medi 2006.

Cais yw hwn felly am ganiatâd i gadw’r swyddfeydd dros dro am gyfnod arall o 5 mlynedd.

Ystyrir bod cadw’r swyddfeydd am gyfnod dros dro ychwanegol yn dderbyniol ac y bydd yn sicrhau bod swyddfeydd ar gael i nifer o staff y Cyngor ar gyfer darparu gwasanaethau hanfodol i’r cyhoedd. Nid oes unrhyw adeiladau addas eraill ar gael.

**7. Casgliad**

Ystyrir bod cadw’r swyddfeydd yn dderbyniol am gyfnod dros dro.

**8. Argymhelliad**

**Caniatau**

**(01) Rhaid cael gwared o'r adeilad a ganiateir yma fel na fydd olion ohono ar y tir erbyn 08/04/2016 ag adfer y tir i'r hyn ydoedd cyn 08/10/2016.**

Rheswm: Am gyfnod dros dro'n unig y rhoes yr awdurdod cynllunio lleol ganiatâd gan eu bod yn dymuno ailystyried y sefyllfa ar 08/04/2016 yn wyneb yr amgylchiadau fydd yn bod yr adeg honno.

## 9. Polisïau Perthnasol Eraill

**Cynllun Lleol Ynys Mon**

26 – Parcio
30 – Tirwedd
42 – Dylunio

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

D3 – Ardaeloedd Cadwraeth Tirwedd
D4 – Lleoliad, Gosodiad a Dylunio
D29 – Dylunio
FF12 – Safonnau Parcio

**Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

GP2 – Dylunio
TR10 – Safonnau Parcio
EN1 – Cymeriad Tirwedd

**Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 4)**

**TAN 12: Dylunio**

## 10. Ymatebion Eraill Di-Faterol a Godwyd

Dim.

**12.5** **Gweddill y Ceisiadau** **Remainder Applications**

Rhif y Cais: **46LPA783C/CC** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Head of Service (Property)**
**c/o Capita Symonds**
**c/o John Stoddard**
**Penrhos Manor**
**Oak Drive**
**Colwyn Bay**
**LL29 7TW**

Gwelliannau i'r ardal amwynder arfordirol yn Improvements to the coastal amenity area at

Porth Dafarch, Holyhead



**Pwyllgor Cynllunio: 06/04/2011**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio(SCR)**

**Argymhelliad:**

Caniatau

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Yr awdurdod lleol yw perchennog rhan o'r safle a'r Cyngor Sir sy'n cyflwyno'r cais.

**1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae'r cynnig yn ymwneud â gwella'r ardal mwynderau arfordirol ac yn cynnwys gwella'r cyfleusterau parcio, gwella'r ramp mynediad, adeiladu wal fôr risiog ac ailgodi'r waliau cynnal, gwella ardal lle mae seddi ar hyn o bryd, gosod dodrefn stryd newydd a chompownd newydd ar gyfer biniau. Mae'r gwaith arfaethedig yn rhan o Brosiect Amgylchedd Arfordirol Ynys Môn.

Lleolir y safle i'r de o Gaergybi ar arfordir gorllewinol Ynys Cybi oddi ar arfordir gogledd-orllewinol Ynys Môn ac mae mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Defnyddir y safle gan ymwelwyr a phobl leol fel ei gilydd a nod y gwaith arfaethedig fyddai gwella cyfleusterau.

Lleolir y safle mewn parth llifogydd C2 sef ardal llifogydd heb isadeiledd sylweddol i warchod rhag llifogydd.

**2. Mater(ion) Allweddol**

Y prif faterion yma yw effaith y cynnig ar yr ardal o gwmpas sydd wedi'i ddynodi'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ac a yw'r datblygiad yn cydymffurfio gyda TAN 15 - Datblygu a Risg Llifogydd.

**3. Prif Bolisïau**

**Cynllun Lleol Ynys Môn**

Polisi 1 – Polisi Cyffredinol
Polisi 28 – Llif Llanw a Llifogydd Afon
Polisi 30 - Tirlun
Polisi 36 – Datblygu Arfordirol
Polisi 37 – Mynediad y Cyhoedd
Polisi 42 – Dyluniad

**Cynllun Fframwaith Gwynedd**

Polisi CH1 – Twristiaeth
Polisi D1 – Tirlun
Polisi D4 – Lleoliad, Safle a Dyluniad
Polisi D32 – Tirlunio

**Cynllun Datblygu Unedig a Stopiwyd**

Polisi GP1 – Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu
Polisi GP2 – Dyluniad

Polisi EN2 – Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Polisi EN9 – Datblygu o fewn neu ger wlybtiroedd, dyfrgyrsiau a thraethau.
Polisi SG2 – Datblygu a Llifogydd
Polisi TO14 – Llecyn Mwynderol

Nodyn Cyngor Technegol 15:  Datblygu a Risg Llifogydd

Nodyn Cyngor Technegol 12 – Dyluniad

**4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

Aelod Lleol – dim ymateb hyd yma

Cyngor Cymuned – yn pryderu y cyflwynwyd y cais heb ymgynghori ymlaen llaw gyda'r Cyngor Cymuned.  Cynhaliwyd cyfarfod rhwng cynrychiolydd yr ymgeiswyr ac aelodau'r Cyngor Cymuned ac mae'r materion a godwyd bellach wedi eu datrys.

Priffyrdd – sylwadau safonol

Iechyd yr Amgylchedd – Dim sylwadau

Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd – Argymell caniatáu gydag amodau

Cyngor Cefn Gwlad Cymru – Dim sylwadau

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol – Codi pryderon ynghylch dyluniad y stepiau – os yw'r ymgeisydd yn dymuno diwygio dyluniad y stepiau arfaethedig, gellid gwneud hynny'n ddiweddarach trwy wneud mân newidiadau

Draenio – Sylwadau safonol

Asiantaeth yr Amgylchedd – Mae'r risg llifogydd yn dderbyniol ac mae'n cwrdd â gofynion Nodyn Cyngor Technegol 15 : Datblygiad a Pherygl Llifogydd.  Dim gwrthwynebiad i'r cynllun – gwybodaeth.

Stad y Goron – Dim sylwadau

**Ymateb gan aelodau'r cyhoedd**

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd mewn tair ffordd i'r cais.  Rhoddwyd rhybudd ger y safle, cyhoeddwyd rhybudd yn y wasg yn lleol a rhoddwyd rhybuddion i ddeiliaid eiddo cyfagos.  Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn sylwadau oedd 24 Tachwedd,  2010.  Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad nid oedd unrhyw lythyrau wedi'u derbyn yn yr adran.

**5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

46LPA783/CC – Dymchwel rhan o'r toiledau presennol ynghyd ac atgywiro gweddill yr adeilad, rhoi estyniad arno a creu gwelliannau cysylltiedig o gwmpas y safle yn Porthdafarch, Caergybi – Dim gwrthwynebiad  13/01/99

46LPA783A/CC – Barn sginio ar gyfer gwaith gwella arfordirol yn y Toiledau Cyhoeddus, Porthdafarch, Caergybi – dim angen Asesiad Effaith Amgylcheddol – 04/09/08

46LPA783B/CC – Cais amlinellol ar gyfer Gwelliannau Arfordirol ym Mhorthdafarch, Caergybi – dychwelwyd i'r ymgeisydd 06/07/09

**6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

**Effaith ar y dirwedd o amgylch** – Mae'r cais o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Y mae'n ddynodiad statudol sy'n cydnabod ei bwysigrwydd o ran ansawdd y dirwedd ac mewn termau cadwraeth natur.

Prif amcan y dynodiad Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yw cadw a gwella eu harddwch naturiol. Mae yna ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i roi sylw i fwriadau'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a rhaid i benderfyniadau rheoli datblygu sy'n effeithio'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol fod o blaid cadw eu harddwch naturiol yn y lle cyntaf.

Bydd y cynnig yn gwella'r ardal fwynderol bresennol ac yn gwella edrychiad yr ardal.

**Risg Llifogydd** – Mae'r Asesiad Canlyniadau Llifogydd gyflwynwyd fel rhan o'r cais yn cydymffurfio gyda gofynion Nodyn Cyngor Technegol 15 – Datblygu a Risg Llifogydd ac mae'n cadarnhau na fydd yna unrhyw broblemau llifogydd pellach.

**7. Casgliad**

Bydd y cynnig yn gwella'r ardal fwynderol bresennol ac yn gwella'r cyfleusterau i ymwelwyr. Ni fydd y cynnig yn cael effaith andwyol ar y dirwedd oddi amgylch.

**8. Argymhelliad**

**Caniatau**

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: Ufuddhau i anghenion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

**(02) Ni fydd gwaith datblygu yn digwydd hyd oni fydd yr ymgeisydd neu ei asiant neu yr olynwyr mewn teitl wedi sicrhau ar raglen o waith archeolegol yn unol gyda chynllun ysgrifenedig o ymchwil - cynllun wedi ei gyflwyno gan yr ymgeisydd / asiant i'r awdurdod cynllunio lleol a'r ddwy ochr wedi cytuno arno.**

Rheswm: Er mwyn cofnodi unrhyw olion archeolegol o bwys a allai fod ar y safle.

**(03) Rhaid ymgymryd a'r datblygiad a ganiateir gan y caniatâd hwn yn fanwl yn ôl y cynllun a gyflwynwyd ar y 26:10:10 o dan cais cynllunio rhif 46LPA783C/CC.**

Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

**9. Polisïau Perthnasol Eraill**

Dim

**10. Ymatebion Eraill Di-Faterol a Godwyd**

Dim